# Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

**Y Cynghorydd Martin Hughes** **Ward: Dwyrain Maesteg**

**Plaid: Llafur Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Ebrill 2025**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

**Y Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Dwyrain Maesteg ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o bedwar pwyllgor. Fy record bresenoldeb yn holl gyfarfodydd cyngor a phwyllgor yw 86%, gydag absenoldebau oherwydd salwch neu wyliau wedi'u cynllunio.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 239 o ymholiadau etholwyr a/neu ymholiadau'r ward yn ffurfiol gyda'r Cyngor. Rwyf hefyd wedi ymgymryd â materion ar ran etholwyr gyda sefydliadau eraill, yn bennaf Cymdeithas Dai y Cymoedd i'r Arfordir. Mae hyn yn ychwanegol at helpu gyda thua 40 o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu amrywiaeth o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy ddilyn y ddolen hon:

Y Cynghorydd Martin Hughes

**Gweithgareddau Etholaethol**

Rwyf wedi trefnu tair cymhorthfa sy'n cael eu galw'n "Sesiynau Galw Heibio i Breswylwyr" ac a gynhaliwyd ar y cyd â chynghorwyr tref Maesteg o Ddwyrain Maesteg. Rwy'n cynnal "taith gerdded drwy'r ward" anffurfiol wythnosol (fel arfer ar ddydd Gwener), gan sicrhau fy mod yn ymweld â phob stryd ac ardal yn y ward yn rheolaidd.

Mae gen i berthynas waith dda gydag Aelod o'r Senedd ac Aelod Seneddol yr ardal, ac rwyf wedi ymgymryd â nifer o achosion y maent wedi cyfeirio ata i. Rwyf yn cysylltu â'r Cynghorydd Philip Jenkins - sydd hefyd yn cynrychioli ward Dwyrain Maesteg - er mwyn osgoi dyblygu adroddiadau ac atgyfeiriadau y gallai'r ddau ohonom eu gwneud ar briffyrdd a materion amgylcheddol.

Rwy'n treulio llawer o'm hamser rhydd yn nhref Maesteg ac o'i chwmpas ac rwyf bob amser yn barod i drafod unrhyw faterion sy'n peri pryder yr hoffech eu codi gyda mi.

Mae gennyf rif ffôn symudol pwrpasol fel y gall preswylwyr gysylltu â mi bob amser. Rwy'n postio'n rheolaidd ar fy nhudalen Cynghorydd ar Facebook, sy'n darparu ffordd effeithiol o roi cyhoeddusrwydd i wasanaethau'r Cyngor yn lleol ac annog adborth a deialog. Dechreuais y dudalen yn fuan ar ôl cael fy ethol, ac erbyn hyn mae gen i fwy na 500 o ddilynwyr. Mae hyn hefyd yn caniatáu i breswylwyr anfon neges ataf os oes angen fy nghyngor:

https://www.facebook.com/martin4maestegeast/

Rwyf wedi mabwysiadu ymagwedd gwaith tîm at faterion lleol ac rwyf mewn cysylltiad rheolaidd â chydweithwyr sy'n gwasanaethu ar Gyngor Tref Maesteg.

Gyda chynghorwyr eraill o'r un anian yn yr ardal, rydym yn bwriadu cynnal cyfres o weithgareddau dros dro yn yr ardal lle gall etholwyr gysylltu â ni ar sail fwy anffurfiol mewn digwyddiadau cymunedol.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Ar hyn o bryd rwy'n gwasanaethu fel Is-gadeirydd Pwyllgor Maesteg 200, a sefydlwyd i drefnu digwyddiadau i ddathlu 200 mlynedd tref Maesteg yn 2026.

Rwy'n canolbwyntio ar adfywio'r ardal leol a'r rhannau hynny o ganol y dref yr wyf yn eu cynrychioli, ac rwyf wedi hyrwyddo grantiau gwella i sefydliadau a mentrau lleol.

Rwyf wedi datblygu cysylltiadau â'r gwahanol glybiau chwaraeon yn yr ardal, ac wedi cynorthwyo mewn materion yn ymwneud â thir, adeiladau a ffiniau, ynghyd â throsglwyddo asedau cymunedol.

Edrychaf ymlaen at hyrwyddo cynllun gwella ar gyfer safle Golchfa Dwyrain Maesteg a fyddai'n gwella amwynder hamdden a gweledol y rhan hon o'n cefn gwlad.

Rwyf wedi bod yn olrhain y cynnydd ar ddatblygu llwybr cymunedol newydd ar gyfer Cwm Llynfi

Mae fy sylw yn parhau i fynd i'r afael â'r broblem o eiddo adfeiliedig yn y ward.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwyf wedi cwrdd â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol ac wedi bwrw golwg ar faterion sy'n peri pryder yn rheolaidd gyda nhw. Fe wnes i gynnal patrôl gyda SCCH ar ddau achlysur.

Rwy'n Llywodraethwr Ysgolion Cynradd Plasnewydd a'r Garth.

Rwy'n cynorthwyo gwaith Cabinet y Cyngor ar sail anffurfiol fel Hyrwyddwr Crefyddau, ac rwy'n gwasanaethu ar Bwyllgor CYSAG yr Awdurdod sy'n goruchwylio cydaddoli, moeseg ac addysg grefyddol yn ein hysgolion. Rwyf hefyd wedi cynorthwyo a chysylltu â Chyngor Eglwysi Cwm Llynfi (Cytûn) a threfnwyr Ysgol Penwythnos Plant Tamil.

| |
|---|
| Byddaf yn parhau i fynychu'r holl ddigwyddiadau rhanddeiliaid lleol perthnasol, gan gynnwys cyfarfodydd y bwrdd iechyd lleol i ddatblygu gwasanaethau iechyd yng Nghwm Llynfi. |
| **Y Cynghorydd Martin Hughes:** **Dyddiad: 9/06/2025** |